Asesiad HMI Wendy Williams o Heddlu Dyfed-Powys – Trawsgrifiad

Helo. Wendy Williams ydw i, a fi yw Arolygydd Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

Dwi'n un o bum arolygydd, a'n rôl i yw arolygu heddluoedd ar ran y cyhoedd. Pob blwyddyn byddwn yn cynhyrchu asesiad blynyddol o sut mae pob heddlu'n perfformio.

Yn ei archwiliadau PEEL eleni, gwelodd HMIC rai meysydd oedd yn peri pryder difrifol ym mherfformiad Heddlu Dyfed-Powys. O ganlyniad i'r casgliadau hyn, rydw i wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd gyda'r prif gwnstabl ac rwyf wedi fy nghalonogi gan sut mae'r heddlu wedi cydnabod ac ymateb i'r materion a godwyd gennym. Fodd bynnag, rwy'n gwerthfawrogi bod angen cryn dipyn o welliant.

Mae'r heddlu'n dda o ran atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac wedi sefydlu trefniadau da i daclo troseddau difrifol a chyfundrefnol. Fodd bynnag, rwy'n poeni nad oed ymchwilwyr gyda hyfforddiant priodol ar gael ar bob adeg, ac yn benodol ynghylch y diffyg arbenigedd proffesiynol wrth ymchwilio i rai achosion cam-drin domestig risg uchel.

Mae gan yr heddlu fwy o waith i'w wneud i wella ei ymateb i bobl fregus. Nid wyf yn fodlon fod y risgiau mae galwyr argyfwng ac nad ydynt yn argyfwng yn wynebu wedi eu deall yn gyson gan y rhai sy'n ateb galwadau. Mae hyn yn llesteirio cynnydd ar ran yr heddlu i ddiogelu'r mwyaf bregus.

Fel fu'n wir yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r heddlu wedi tanwario yn erbyn ei gyllideb. Fodd bynnag, nid yw ei gynlluniau ar gyfer sut fydd yn cyflawni arbedion tu hwnt i 2016 wedi eu datblygu'n dda ac mae angen eu gwella.

Mae angen datblygu cynllun yr heddlu i barhau i ddarparu plismona effeithiol dros ei ardal ddaearyddol fawr gyda llai o staff ar fyrder. Byddwn wedi hoffi gweld mwy o dystiolaeth fod yr heddlu wedi cynnwys y Cod Moeseg i'w bolisi ac arfer yn rhan o ddatblygu diwylliant mwy moesegol. Rwy'n falch i ni weld tystiolaeth fod yr heddlu'n datblygu systemau i ddarparu cyfarwyddyd clir ac i gydlynu gweithgareddau fydd yn gwella ei ymgysylltu gyda'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu.

Yn y flwyddyn i ddod, bydd gennyf ddiddordeb penodol mewn gwybod sut mae'r heddlu'n gwella'r modd mae'n delio â dioddefwyr bregus, gan dalu sylw penodol at sut y delir â galwadau'r cyhoedd a sut y cyflawnir achosion cam-drin domestig.

Hoffwn hefyd weld yr heddlu'n cyhoeddi cynlluniau clir a realistig ar gyfer cyflawni arbedion tu hwnt i 2016.